**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 13eg Mawrth 2025**

**Yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli am 7.30 yh**

**Presennol:**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd), Phil Roberts, Tesni Jones, Nia M Jones, Gareth Roberts, Wynne Davies, Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**Ymddiheuriadau**
Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhys Jones (Is-gadeirydd), Dafydd Ll Williams, Catherine Hughes, Einir Lewis a'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr**
Cadarnhawyd bod cofnodion 13/02/25 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Nia M Jones.

**Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw fater newydd wedi codi.

**Gohebiaeth**

**Gosod Cofeb ger safle'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Trafodwyd y gofeb a cytunwyd i'r :

- Cadeirydd gysylltu gyda Sian sy'n gweithio i Radio Cymru er mwyn hysbysu Aled Hughes am y gofeb er mwyn rhoi mensh iddi ar y Radio.
- Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Dewi Wyn er mwyn tynnu llun y dad-orchudio.
- Cytunwyd i'r Clerc lunio erthygl ar gyfer Llanw Llyn.
- Penderfynnwyd y byddwn yn dad-orchuddio'r gofeb ar Ddydd Sadwrn.
- Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu gyda CH er mwyn cael dyddiad ganddi o bryd y byddai ar gael.
- Cytunwyd y byddwn yn ei dad-orchuddio cyn y Pasg.
- Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Iestyn Tyne.

**Cais Cynllunio**
Ni wnaeth unrhyw Gynghorydd ddatgan diddordeb i Gais Cynllunio o'r newydd.

**C24/0704/33/LL** – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i'r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA. Trafodwyd y cais a nodwyd nad oes unrhyw benderfyniad wedi'w wneud.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda swyddog cynllunio er mwyn gofyn os oes unrhyw benderfyniad wedi'w wneud? Teimlad y Cynghorwyr yw bod y cyhoedd yn parhau i gwyno a holi am y cais, ond nid oes unrhyw ddiweddariad.

**<u>Materion ariannol</u>**
**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/01/25 - 03/02/25 - £8,019.92c
04/02/25 – 03/03/25 - £7581.49c

Derbyniwyd Datganiad Banc Mis Chwefror 2025 gan y Cynghorwyr.

Yn ystod cyfarfod 13/03/25, cafodd 10 siec eu harwyddo gan y Cynghorydd Tesni Jones a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200861 | Cyflog y Clerc (Mis 12) | £235.60c |
| Siec Rhif 200862 | Costau teithio'r Clerc | £4.68c |
| Siec Rhif 200863 | Cyllid a Thollau | £27.80c |
| Siec Rhif 200864 | Hurio Ystafell – Clwb Chwaraeon Pwllheli | £20.00 |
| Siec Rhif 200865 | Cyfraniad ariannol – Theatr Bara Caws | £100.00 |
| Siec Rhif 200866 | Defib Store Ltd – Padiau Defib Ceidio | £60.00 |
| Siec Rhif 200867 | Un Llais Cymru – Hyfforddiant i'r Clerc | £40.00 |
| Siec Rhif 200868 | Un Llais Cymru – Aelodaeth Blynyddol | £96.00 |
| Siec Rhif 200869 | Defib Store Ltd – Padiau Defib Twnti | £60.00 |
| Siec Rhif 200870 | Gerallt Hughes – Gosod llechen ar y gofeb | £25.00 |

**<u>Unrhyw fater arall</u>**

**<u>Plac i'r Fainc ym Moduan</u>**
Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu gyda MT er mwyn ei holi am y plac.

**<u>Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru</u>**
Nodwyd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda aelodau o staff Archwilio Cymru yn dilyn uwchlwytho ein gwaith cyfrifon iddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad o safbwynt yr archwiliad.

**Cysoniad Banc**
Trafodwyd y daenlen cysoniad banc am 2024/2025. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda DLLW er mwyn holi os modd iddo gwblhau dasg yma eto eleni.

**Tendr torri gwellt blynyddol**
Trafodwyd y tendr torri gwellt blynyddol. Penderfynwyd i beidio gyrru'r tendrau allan eleni a phenderfynwyd i aros hefo'r un contractwr am flwddyn arall.

**Cae Chwarae Rhydyclafdy**
Nodwyd cwyn bod hi'n fwdlyd ac yn fudr iawn wrth y giât yng nghae chwarae Rhydyclafdy. Cytunwyd y byddai TJ yn hysbysu'r grŵp "Whats App" yn nodi'r gwyn. Roedd y Cynghorwyr yn pryderu y byddai rhiwyn yn gallu llithro a brifo yno.

**Cysylltu â'r Adran Briffyrdd**
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Adran Briffyrdd ermwyn nodi bod tociau o ganiau cwrw wedi cael eu gadael ar ochr y ffordd ar Lôn Pin, sef y ffordd rhwng Rhydyclafdy a Llanbedrog.

Nodwyd y Clerc bod Lord Newborough wedi talu £100 o gyfraniad ariannol blynyddol i'r Cyngor Cymuned.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 10/04/25 yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd am 7.30yh.**